Ysgol Pentreuchaf

4. Polisi Adnoddau

Nod

Ystyried yr holl adnoddau a ddefnyddir oddi mewn a thu allan i'r ysgol fydd yn cynnal a chyfoethogi addysg gyflawn.

Amcanion

1. Sicrhau fod gennym amrediad eang o adnoddau addas i gyfoethogi'r dysgu a galluogi'r plant i wneud y defnydd gorau posibl ohonynt.
2. Defnyddio adnoddau mewn ffordd fydd yn galluogi pob plentyn i'w trin mewn modd effeithiol.
3. Rhestru adnoddau a'u hadolygu'n rheolaidd – Cydlynwyr pynciol i fod yn gyfrifol.
3. Sicrhau bod y staff yn gyfrifol am adnoddau'r ysgol.
4. Annog y plant i wneud defnydd cyfrifol o'r adnoddau, i'w parchu ac i'w defnyddio'n ddiogel.
5. Cytuno ar fan cadw offer a threfn eu dychwelyd ar ôl eu defnyddio.

Canllawiau

1. Mae angen adnoddau amrywiol ar gyfer pob oed er mwyn cynnal a chyfoethogi dilyniant o brofiadau drwy'r ysgol.
2. Rhaid i bob aelod o staff, a'r plant hefyd, fod yn ymwybodol o ddiogelwch o ran cyflwr a defnydd adnoddau.
3. Dylai pob aelod o staff nodi anghenion a'u trafod yn anffurfiol gyda'r Cydlynwyr fel maent yn codi. Trafod ir yn fwy ffurfiol wrth Hunanarfarnu ac wrth gynllunio'r Cynllun Datblygu'r Ysgol.

Casgliad

Ceisio creu cronfa o adnoddau fydd yn cyfoethogi addysg a datblygiad y plant, ac yn ein galluogi i gynnig iddynt brofiadau gwerthfawr, mewn sefyllfaoedd diogel.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____